



**RHONDDA CYNON TAF COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEIS TREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

Bydd cyfarfod o'r **Bwrdd Rhianta Corfforaethol** yn cael ei gynnal yn: **Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX**
ar

Dydd Mawrth, 8 Mai 2018 am 10.00 am

Swyddog cyswllt: Hannah Williams - Uned Busnes Rheoleiddiol a Gweithredol (Ffôn: 01443 424062)

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Côd Ymddygiad.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae rhaid iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol, a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2018, yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 - 20)

3. CYNHALWYR IFAINC - ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i Aelodau o'r Bwrdd am Wasanaeth Cynhalwyr Ifainc RhCT a'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn 2016-17.

(Tudalennau 21 - 38)

4. DARPARIAETH GOFAL PLANT COFRESTREDIG - Y NEWYDDION DIWEDDARAF

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol am leoliadau gofal plant cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru, sydd wedi'u goruchwylio gan Wasanaeth y Blynyddoedd Cynnar a Chymorth i Deuluoedd, ac am gynllunio camau gweithredu a gwelliannau i'r gwasanaethau gan y staff ac yn y lleoliadau gofal plant.

(Tudalennau 39 - 50)

5. ADRODDIAD BLYNYDDOL 'MISKIN'

Derbyn adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyfadran y gwasanaethau cymuned a gwasanaethau i blant sy'n darparu diweddariad blynyddol at y bwrdd rhianta corfforaethol mewn perthynas â gwaith 'Meisgyn'.

(Tudalennau 51 - 94)

6. GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - CWYNION A CHANMOLIAETHAU CHWARTEROL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd gweithdrefn cwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol statudol.

(Tudalennau 95 - 114)

7. GWASANAETH EIRIOLAETH IEUENCTID CENEDLAETHOL

Trafod yr adroddiad gan Wasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol sy'n rhoi'r wybodaeth chwarterol ddiweddaraf i'r Aelodau.

(Tudalennau 115 - 122)

8. TRAFOD CADARNHAU'R CYNNIG ISOD YN BENDERFYNIAD:

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.”

9. ADRODDIADAU RHEOLIAD 32

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n cynnwys gwybodaeth eithriedig.

(Tudalennau 123 - 228)

ER GWYBODAETH

10. YMWELIADAU Â CHARFANAU'R RHENG FLAEN 2017-18

Nodi'r ymweliadau wedi'u cynnal gan Aelodau o'r Bwrdd â charfanau'r Rheng Flaen yn ystod 2017-18:

- Carfan Ymyrraeth Ddwys Gorllewin – 13 Medi, 2017
- Carfan Ymyrraeth Ddwys Dwyrain – 9 Hydref, 2017
- Glynornel – 21 Tachwedd, 2017
- Carfanau Asesu a Holi Gorllewin a Dwyrain – 17 Ionawr, 2018
- Carfan Plant Anabl a'r Blynnyddoedd Cynnar Dwyrain – 7 Chwefror, 2018
- Gwasanaethau Troseddau'r Ifainc – 14 Chwefror, 2018
- Tŷ Catrin – 20 Mawrth, 2018

Cylchrediad:

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol:

Y Cynghorydd G Hopkins (Cadeirydd)
Y Cynghorydd C Leyshon (Is-gadeirydd)
Y Cynghorydd M Weaver
Y Cynghorydd J James
Y Cynghorydd S. Rees-Owen
Y Cynghorydd J Rosser
Y Cynghorydd R Yeo

Swyddogion:

Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Ann Batley, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau i Blant
Gaynor Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Mynediad, Ymgysylltu a Chynhwysiant
Hannah Bevan, Cydlynnydd Addysg ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
Jayne Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion

Gwasanaeth Cenedlaethol Eiriolaeth Ieuenctid ('NYAS') – copi electronig